**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Bwrdd Pensiwn Lleol

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 23 Gorffennaf 2020 am 10.00 am**

**Yn Bresennol:** I Guy (Cadeirydd) Pfu'n llywyddu

**Cynrychiolwyr Cyflogwr**
M B Lewis

**Cynrychiolwyr Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol**
D White

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeffrey Dong | Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran 151 |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |
| Karen Cobb | Uwch-gyfrifydd |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
***Cynrychiolwyr Cyflogwr***
A Lockyer

***Cynrychiolwyr Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol***
R Broad a/ac D Mackerras

---

## 44 Ethol is-gadeirydd am weddill y flwyddyn ddinesig 2019-2020.

**Penderfynwyd** penodi'r Cynghorydd M B Lewis yn Is-gadeirydd am weddill flwyddyn ddinesig 2019-2020.

## 45 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol: -

I Guy – Yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

D White – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

Y Cynghorydd M B Lewis - yr agenda yn ei chyfanrwydd - aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

**Swyddogion:**

J Dong – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

K Cobb – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

S Williams – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

A Lowe – yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol – personol.

**46 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2020 fel cofnod cywir.

**47 Cynllun Archwilio 2020 - Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe. (Er gwybodaeth)**

Cyn cyflwyno eitem y Cynllun Archwilio, darparodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 y diweddariadau canlynol:

- Soniodd am y datblygiadau diweddar ar lefel cynllun cenedlaethol a sut roedd yr adran Gweinyddu Pensiynau wedi ymdopi yn ystod argyfwng COVID-19 wrth ymdrin ag aelodau presennol cynllun y gronfa bensiwn, yn ogystal ag aelodau gohiriedig ac aelodau gweithredol.

  Gofynnodd y Cadeirydd, ar ran y Bwrdd, am roi diolch i'r holl staff sy'n sicrhau bod y gwaith yn mynd rhagddo yn ystod y cyfnod anodd hwn.

- Yn y cyfnod dros dro ers y cyfarfod diwethaf, cyhoeddodd y Llywodraeth ymgynghoriad a oedd yn ceisio barn ar gynigion ar gyfer mynd i'r afael â'r gwahaniaethu a nodwyd yn McLoud er mwyn mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hanesyddol rhwng y rhywiau wrth gael mynediad at eu pensiynau. Roedd yr ymgynghoriad ar gael tan 18 Hydref 2020 ac mae'n debygol y byddai sylwadau Abertawe yn cael eu cynnwys fel rhan o ymateb Partneriaeth Pensiwn Cymru.

  Roedd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 wedi sicrhau'r bwrdd y byddent yn cael gweld yr ymateb drafft a gyflwynwyd i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ym mis Medi.

- Ar 21 Gorffennaf 2020 ymatebodd y Llywodraeth i ymgynghoriad agored mewn perthynas â chyfyngu taliadau gadael yn y sector cyhoeddus. Cyflwynodd Abertawe ei sylwadau fel rhan o ymateb Partneriaeth Pensiwn Cymru ar y cyd.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 Gynllun Archwilio 2020 Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) a oedd yn nodi'r gwaith archwilio arfaethedig, pryd y byddai'n cael ei wneud, faint y byddai'n ei gostio a phwy byddai'n ei wneud.

Roedd Atodiad 1 yn nodi cyfrifoldebau'r archwilydd, ynghyd â rhai'r rheolwyr a'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu.  Roedd Arddangosyn 1 yn darparu tri cham y dull archwilio, roedd Arddangosyn 2 yn amlinellu'r risgiau archwilio ariannol.  Nodwyd y ffi archwilio arfaethedig ar gyfer y gwaith hwn yn Arddangosyn 3 a darparwyd yr amserlen ar gyfer yr archwiliadau arfaethedig yn Arddangosyn 5.

**48 Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe Datganiad Strategaeth Ariannu Drafft. (Er gwybodaeth)**

Darparodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' i sicrhau cydymffurfiad â Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol sy'n gofyn am ddatganiad strategaeth ariannu.

Prif bwrpas y Datganiad Strategaeth Ariannu oedd amlinellu'r prosesau a ddefnyddir gan yr awdurdod gweinyddu i:

- sefydlu strategaeth ariannu glir a thryloyw, sy'n benodol i'r Gronfa, a fyddai'n nodi sut y gellid bodloni rhwymedigaethau pensiwn cyflogwr;
- gefnogi'r gofyniad rheoliadol mewn perthynas â dymunoldeb cynnal cyfradd cyfraniadau sylfaenol sydd mor gyson â phosib;
- sicrhau bod y gofynion rheoliadol i bennu cyfraniadau er mwyn sicrhau diddyledrwydd a chost effeithlonrwydd tymor hir y Gronfa'n cael eu bodloni;
- ystyried ariannu rhwymedigaethau'r Gronfa'n ochelgar yn y tymor hwy.

**49 Cynllun Busnes Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2020/21.  (Er gwybodaeth)**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Cynllun Busnes Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2020/21 er mwyn darparu fframwaith gweithredol ar gyfer rhaglen waith 2020/21 y Gronfa Bensiwn.

**50 Hyfforddiant Ymddiriedolwyr - Cod Ymarfer CIPFA, Gwybodaeth a Sgiliau Cyllid y Sector Cyhoeddus - Aelod o Bwyllgor Dyletswydd Gwybodaeth a Dealltwriaeth y Rheoleiddiwr Pensiwn.**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn amlinellu'r rhaglen hyfforddiant flynyddol ar gyfer aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiwn, Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol a swyddogion y Gronfa Bensiwn.

Trafododd y Bwrdd ganlyniadau'r Asesiad Gwybodaeth Cenedlaethol ar-lein (NKA), ynghyd ag amrywiaeth o asesiadau a gweminarau ar-lein eraill a ddarparwyd gan *Hymans Robinson*.

Byddai'r Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 yn darparu adroddiad o ganlyniadau dienw ar yr Asesiad Gwybodaeth Cenedlaethol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Pensiwn Lleol.

## 51 Datganiad o Gyfrifon Drafft 2019/20. (Er Gwybodaeth)

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth', a oedd yn amlinellu'r datganiad o gyfrifon drafft ar gyfer Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2019/20.

Ychwanegwyd bod swyddogion wedi cyflwyno datganiad drafft o gyfrifon wedi'i gwblhau yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Roedd Archwilio Cymru wedi nodi na fyddent yn dechrau eu harchwiliad o Ddatganiad o Gyfrifon Drafft Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2019/20 tan fis Medi 2020, oherwydd ymyrraeth argyfwng COVID-19, ac nid oedd hyn yn unol â'u cynllun archwilio a gyflwynwyd i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn yn gynharach yn y flwyddyn. Fodd bynnag, byddai’n dal i fod yn unol â therfynau amser statudol Caiff eu hadroddiad ei gyflwyno i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ar ddiwedd yr archwiliad yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Darparwyd Datganiad o Gyfrifon Drafft 2019/20 yn Atodiad 1.

## 52 Twyll a Sicrwydd i Bartïon Perthynol. (Er Gwybodaeth)

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn nodi'r Datgeliad Twyll a Phartïon Perthynol ar gyfer Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2019/20.

Amlinellwyd, fel rhan o archwiliad statudol Archwilio Cymru o ddatganiad o gyfrifon Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe, fod gofyn iddynt ganfod sut roedd Uwch-reolwyr yn goruchwylio ac yn rheoli cyfres o faterion a oedd yn ymwneud â phartïon perthynol, rheolaeth ariannol a rheoli twyll

Yn Atodiad 1, atodwyd datgeliad twyll a phartïon perthynol yr uwch-reolwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20.

## 53 Toriadau. (Er gwybodaeth)

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu manylion toriadau a gafwyd yn y cyfnod hwn yn unol â'r polisi Adrodd am Doriadau.

Yn Atodiad A darparwyd manylion y toriadau a gafwyd ers y cyfarfod blaenorol ym mis Chwefror 2020. Amlygwyd manylion y toriadau a'r camau gweithredu a gymerwyd gan reolwyr.

## 54 Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) - Cynllun Busnes. (Er gwybodaeth)

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth', a oedd yn amlinellu Cynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) 2020.

Darparwyd cynllun busnes PPC yn Atodiad 1. Roedd y cynllun yn manylu ar flaenoriaethau a meysydd ffocws PPC ar gyfer 2020/21, 2021/22 a 2022/23 ac fe'i cymeradwywyd gan Gyd-bwyllgor Llywodraethu PPC ar 12 Mawrth 2020. Ychwanegwyd bod y Cynllun Busnes yn cael ei fonitro'n gyson a chaiff ei adolygu'n ffurfiol a'i gytuno bob blwyddyn.

Esboniwyd mai diben y cynllun busnes oedd:

- Esbonio cefndir a strwythur llywodraethu'r PPC;
- Amlinellu blaenoriaethau ac amcanion y PPC dros y tair blynedd nesaf;
- Cyflwyno polisïau a chynlluniau'r PPC;
- Amlinellu'r gyllideb ariannol ar gyfer y cyfnod Cynllun Busnes perthnasol;
- Crynhoi Buddsoddiadau ac Amcanion Perfformiad PPC.

Roedd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cefnogi'r ymagwedd a gymeradwywyd gan Bwyllgor y Gronfa Bensiwn yn llawn, gan gynnwys yr ymagwedd o gynnwys aelodau'n fwy yn y PPC.

**55 Hyfforddiant Rathbone. (Er gwybodaeth)**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn hysbysu'r Bwrdd o statws un o gyflogwyr ei gorff cydnabyddedig.

Amlinellwyd bod Pwyllgor y Gronfa Bensiwn wedi cymeradwyo derbyn *Rathbone Training* ym mis Medi 2015 a mis Rhagfyr 2015 fel cyflogwr o’r corff cydnabyddedig mewn perthynas â 7 o weithwyr a gyflogwyd yn flaenorol gan Goleg Gŵyr (4) a Chyngor Abertawe (3) (y ddau yn gyflogwyr cofrestredig â Chronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe). Fel gofyniad ar gyfer derbyn, roedd yn rhaid i *Rathbone Training* ymrwymo i gytundeb derbyn rhwymol, ac roedd yn ofynnol i Goleg Gŵyr a Choleg Abertawe ddarparu gwarantiadau noddi'r cyflogwr mewn perthynas ag unrhyw amddifadu neu unrhyw rwymedigaethau eraill sy'n weddill pe bai cyflogwr yn methu.

Derbyniwyd hysbysiad ym mis Mai 2020 fod *Rathbone Training* wedi datgan diddymiad gwirfoddol gan gredydwyr. Ym mis Mai 2020, o'r 7 aelod a nodwyd, roedd 2 yn bensiynwyr, roedd 3 yn aelodau gohiriedig ac roedd 2 wedi trosglwyddo budd-daliadau. Felly, nid oedd unrhyw aelodau gweithredol presennol mewn perthynas â *Rathbone Training*.

Ychwanegwyd bod anfonebau yn ddyledus i *Rathbone Training*, fel a ganlyn: -

- £69,048 (costau mynediad cynnar mewn perthynas â chyn-weithwyr Coleg Gŵyr a chostau actiwaraidd a ailgodir ar Goleg Gŵyr);
- £2,050 (costau actiwaraidd a ailgodir ar gyngor Abertawe)

Roedd y rhain yn cael eu datblygu gyda'r gweinyddwyr penodedig, Begbies Traynor. Roedd actiwari'r gronfa a benodwyd, AON, wedi cael ei hysbysu ac roedd yn ymgymryd â'r prisiad statudol gofynnol ar gyfer ymadael mewn perthynas â'r cyflogwr, Rathbone. Bydd y gweinyddwyr yn adennill unrhyw rwymedigaethau sy'n

weddill gan y cyflogwyr sy'n noddi, sef Coleg Gŵyr a Chyngor Abertawe, yn unol â'r cytundeb derbyn.

**56 Adnoddau'r Awdurdod Gweinyddol. (Er gwybodaeth)**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn amlinellu'r diwygiadau o ran adnoddau.

Darparodd yr adroddiad fanylion yr ailstrwythuro ariannol a roddwyd ar waith ym mis Mehefin 2020 a'r ailstrwythuro/ailraddio arfaethedig ar gyfer gweinyddu pensiynau a buddsoddiadau a chyfrifyddu pensiynau.

Cadarnhawyd y byddai'r rolau yn amodol ar adolygiad Gwerthuso Swyddi.

**57 Gwahardd y cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/argymhellion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle roedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**58 Prisiad Tair Blynedd. (Er gwybodaeth)**

Amlinellodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a gyflwynwyd gyntaf i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ar 13 Mawrth 2020, i sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol, sy'n mandadu cynnal prisiad actiwaraidd teirblwyddol llawn.

**59 Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) - Diweddariad. (Er Gwybodaeth)**

Darparodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Bwrdd am gynnydd rhannu asedau Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Roedd Atodiad 1 yn darparu'r cynnydd a'r adroddiad diweddaru a ddarparwyd gan weithredwr y Cynllun Cytundebol Awdurdodedig, Link Asset Services.

Darparodd Atodiad 2 Bolisi Gwrthdaro Buddiannau Drafft PPC, darparodd Atodiad 3 Bolisi Risg Hinsawdd PPC Drafft ac Atodiad 4 Datganiad Cyfrifon Drafft y PPC 2019/20.

Yn y diweddariad cyfeiriwyd at lansio cronfa incwm sefydlog cyfran 3 ar ddiwedd mis Gorffennaf 2020. Roedd Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe yn paratoi ar gyfer y cyfnod pontio hwn.

## 60 Rhoi'r Strategaeth Buddsoddi ar Waith - Diweddariad.

Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 drosolwg o gynnydd y strategaeth fuddsoddi a gymeradwywyd gan Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ym mis Mawrth 2019.

## 61 Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi. (Er gwybodaeth)

Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 drosolwg o'r adroddiad 'er gwybodaeth', a oedd yn cyflwyno Adroddiad Monitro Buddsoddiadau Chwarter 1 2020.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.19 pm

**Cadeirydd**